| | |
|---|---|
| Nifer yr oriau yr wythnos: | 10 awr |
| Cyfradd yr Awr: | £12.50 |
| Cytundeb: | Parhaol |
| Lleoliad: | Glynebwy |

## Ynglŷn â Thaliadau Uniongyrchol

Mae'r Cyngor yn darparu gofal cymdeithasol i bobl sydd angen cymorth gartref neu yn y gymuned a gallant ddewis derbyn eu cymorth mewn ffyrdd eraill. Un ffordd o wneud hyn yw i'r Cyngor roi'r arian (taliadau uniongyrchol) i'r person er mwyn iddynt allu prynu eu cymorth eu hunain, y gallant ei ddefnyddio i gyflogi Cynorthwyydd Personol (gofalwr). **NI** fydd y Cynorthwyydd Personol yn cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol ond gan y person (neu ei gynrychiolydd) sy'n derbyn gofal.

## Hysbyseb Swydd: Amdanaf I

Rwy’n fam 29 oed sy’n dioddef o iselder, gorbryder ac rwyf hefyd wedi cofrestru’n ddall.

Rwy’n bwriadu cyflogi Cynorthwyydd Personol i helpu i’m cynorthwyo i a’m dau o blant gartref a phan fyddwn yn mynd allan yn y gymuned, am gyfanswm o 10 awr yr wythnos. Byddai angen y cymorth hwn arnaf drwy’r wythnos ac ar y penwythnosau.

Fel Cynorthwyydd Personol, byddwch yn ymuno â thîm sydd eisoes yn fy nghefnogi yn ystod yr wythnos/penwythnosau, felly weithiau bydd gofyn i chi helpu i gyflenwi dros wyliau/absenoldeb salwch.

Mae angen cymorth arnaf i fynychu gweithgareddau cymdeithasol allan yn y gymuned gyda fy mhlant, megis mynd i McDonalds, i'r parc, i'r ganolfan hamdden, siopa i Gaerdydd ac i'r traeth ac ati. Mae gyrrwr car yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, a byddaf angen rhywun sy'n yrrwr hyderus. Mae gen i fy ngherbyd fy hun y byddai disgwyl i chi ei yrru.

Mae hefyd yn bwysig i mi fod fy nghartref yn lân ac yn daclus, ac mae angen Cynorthwyydd Personol arnaf i'm cefnogi i wneud y tasgau dyddiol hyn.

## Buddion

- Gwisg anffurfiol
- 5.6 wythnos o Dâl Gwyliau'r flwyddyn
- Nid oes angen car gan y byddech yn defnyddio fy nghar i

## Gofynion – beth sy’n bwysig i mi

- Mae angen i chi gael y gwerthoedd a'r ymddygiadau cywir i weithio ym maes gofal cymdeithasol.
- Rhaid i chi barchu fy mhreifatrwydd a chynnal agwedd broffesiynol bob amser.
- Rhaid i chi fod yn onest, yn gredadwy ac yn ddibynadwy.
- Mae’r gallu i yrru car yn hanfodol.
- Rhaid i chi gael trwydded yrru lân.
- Rhaid i chi fod yn yrrwr hyderus.
- Rhaid i chi sicrhau bod Yswiriant Busnes yn cael ei gymryd ar eich cerbyd.
- Rhaid i chi gael gwiriad DBS Manwl ar gyfer y rôl hon (bydd yr awdurdod lleol yn talu am hyn).

## Sut i Wneud Cais

Os ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'm cefnogi ond yr hoffech gael mwy o wybodaeth cyn i chi benderfynu gwneud cais am y rôl, cysylltwch â'r tîm Taliadau Uniongyrchol ar 01495 355265 gan ddyfynnu rhif cyfeirnod **1530189**.

Fel arall, gallech anfon e-bost atom yn y cyfeiriad e-bost canlynol: -directpayments@blaenau-gwent.gov.uk